

# Her na ddylid ei hosgoi

*“Os dywedwn ein bod yn ddibechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, ac nid yw'r gwirionedd ynom.” (adn. 8)*

## Beth am ddarlenn 1 Ioan 1:1–10 ac yna myfyrio

Mae yna dystiolaeth mewn adrannau rhyddfrydol o'r Eglwys gyfoes fod y ffaith o bechod yn cael ei hosgoi, a hyd yn oed yn cael ei chuddio. Gall eglwysi efengylaidd hefyd fod yn euog o guddio pechod. Fe ddywed un awdur mewn llyfr diweddar fod yna duedd o fewn yr Eglwys Gristnogol, hyd yn oed yn yr oedfaon lle y gwahoddir pobl i ymateb i'r Efengyl, i esgeuluso ac anwybyddu realiti pechod, a thrwy hynny dorri asgwrn cefn yr Efengyl. Y gwir Beiblaidd yw lle nad oes yna ddatleniad clir gyda golwg ar bechod, bod Efengyl gras yn dod yn rhywbeth dianghenraid ac anniddorol. Mae hyn yn mynd â ni yn ôl at wirionedd a fynegwyd eisoes: os nad oes pechod, does dim angen am Waredwr.

Yn yr eglwysi hynny sydd yn gwrthod siarad am bechod a'i ddiffinio yn glir, nid oes unrhyw newyddion da i gynnig i ddynion a merched, gan nad ydynt yn eu cynorthwyo i ddeall yr angen am Waredwr. Yr unig beth y maent yn ei gynnig yw rhyw ddiwygio ar fywydau yn hytrach nag aileni, rhyw aildrefnu bywyd yn hytrach na phrynu bywyd. Mae hyn yn gwneud yn fach o groes yr Arglwydd Iesu Grist ac yn gwneud gras yn rhad yn yr ystyr fod gras Duw bob amser yn dod atom ni gydag ôl y gwaeid arno.

Os nad ydym yn pregethu pechod yn ein heglwysi, yr ydym yn barod iawn i bwysleisio gras a chariad. Nid gwadu pechod, ond siarad am ras heb sôn am bechod yw hyn. Yr anhawster tragwyddol a berthyn i hyn yw nad ydym yn cymryd natur ddifrifol pechod i ystyriaeth. Nid oedd dim llai na marwolaeth Mab Duw yn ddigonol i ddelio gyda phechod, i wneud iawn dros bechod. Mae osgoi cyfeirio at bechod yn anghofio sôn am y bwriadau tragwyddol oedd gan Dduw wrth anfon ei Fab; mae'n anghofio gras a ddatguddiwyd ar ben Calfaria wrth i gorff Iesu gael ei rwygo a'i waed gael ei dywallt er ein mwyn ni. Mae sôn am ras heb bechod yn ddiystyr.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Jer. 2:19–24; 30:11–12; Luc 13:1–5

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Ar ba adegau y gallwn dybio nad oes ynom bechod?
2. Beth yw canlyniad gwadu pechod?

## Gweddi

O Dduw, gwared ni rhag cyflwyno gwirionedd sydd heb unrhyw falans ynddo yn ein heglwysi. Rwy'n gweld, os nad yw'r Efengyl yn cael ei chyflwyno yn ei chyflawnder, fod gennym efengyl arall. Gwared yr Eglwys rhag pregethu efengyl arall. Yn enw Iesu. Amen.